**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Yr Amgylchedd Naturiol

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Mercher, 29 Awst 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L S Gibbard | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | J W Jones | I E Mann |
| S Pritchard | M Thomas | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Paul Meller | Rheolwr Cynllunio Strategol ac Amgylchedd Naturiol |
| Nigel Williams | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol |
| Tim Orrell | Swyddog Cysylltiadau Cefn Gwlad |
| Penny Gruffydd | Swyddog Polisi Cynaliadwyedd |
| Siôn Brackenbury | Swyddog Coed Cymru |
| Judith Oakley | Ecolegydd Cynllunio |

1 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

- Dim

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

- Dim

3 **Nodiadau**

- Cymeradwywyd

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

- Dim

## 5 Sesiwn Holi ac Ateb - Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol a'r Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol

- Amlinellwyd nod ac amcanion yr ymchwiliad
- Trosolwg byr o'r cyfarfod gyda'r adran cynllunio
  Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol – Sesiwn Holi ac Ateb
- Bydd achlysuron pan na fydd tir yn cael ei waredu oherwydd rhesymau ecolegol
- Yn unol â diwydrwydd dyladwy, cynhelir arolygon ecolegol ar y tir yn y lle cyntaf a bydd hyn yn sefydlu pa mor werthfawr yw'r tir ac a ddylid ei gadw
- Caiff y tir ei ychwanegu at y rhestr gwaredu ar ôl ymgymryd â'r broses hon yn unig
- Rhoddir gwerth i dir mewn modd gwahanol gan ddibynnu ar a yw'r tir hwnnw ar werth neu i'w brydlesu
- Ni roddir Gorchmynion Amddiffyn Coed ar dir y cyngor fel arfer
- Ystyrir ffactorau amgylcheddol ac yna datblygir amcangyfrif ariannol gan y tîm
- Mae gwrthdaro uniongyrchol rhwng mwyafu incwm a materion amgylcheddol ac mae hwn yn fater sylfaenol
- Bydd polisi yn penderfynu ar y gwrthdaro hwn a daw canlyniadau drwy gyd-drafod
- Bydd unrhyw gyfyngiad statudol yn diystyru unrhyw bolisi gan y cyngor
- Gall dadleuon godi oherwydd lliniaru amgylcheddol
- Nid oes llawer o gyswllt ag asiantaethau allanol megis CNC oni bai fod hyn yn angenrheidiol. Yn gyffredinol, cyfeirir unrhyw faterion i'r Tîm Cadwraeth Natur
- Weithiau, ymgymerir ag arolygon ecolegol allanol ar safleoedd posib ond mae'n rhaid gwrthbwyso cost ymgymryd â'r ymchwiliadau hyn yn erbyn unrhyw incwm – mae'n rhaid i hyn fod yn ddichonadwy'n ariannol
- Mae gwaith sy'n ymddangos â mwy o bwyslais ar ecosystemau a manteision tir megis lliniaru llifogydd a charbon – mae hwn yn golygu y gallai tir fod yn fwy gwerthfawr nac y meddyliom yn y lle cyntaf
- A allai incwm tymor hir fod yn ddichonadwy yn hytrach na gwerthu asedau a chadw un swm o arian o'r tir yn unig
- Rhennir y data a'r arolygon allanol a wneir â'r adran ecoleg
- Mae argaeledd y tir y gellir ei ddatblygu'n fach iawn – ni fydd y rhan fwyaf o'r tir yn Abertawe byth yn cael ei ddatblygu
- Byddai creu incwm o ddarn o dir yn dda ond mae angen staff i'w reoli ac nid oes gan adrannau'r adnoddau
- Mae angen rhywun i reoli tir sydd â phrosiectau creu incwm ac mae'n rhaid cael ymagwedd gydlynol ar gyfer yr holl dir
- Nid yw'r Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol yn rheoli unrhyw orfodaeth ar y tir. Mae gorfodaeth yn cael ei monitro'n unig drwy adrannau eraill megis cynllunio (os yw'n amodol ar gynllunio) a gorfodaeth ecolegol arall
- Mae pobl yn barod i fentro derbyn cosb ariannol am ddifrodi tir a rhywogaethau os bydd yn gwneud elw/sicrhau datblygiad tir
- Nid oes adnoddau digonol ar gyfer gorfodi cyfreithlon

- Mae gan gynghorwyr lleol rôl fawr i'w chwarae wrth adrodd am faterion sy'n gofyn am orfodaeth oherwydd, os bydd digon o gyhoeddusrwydd, dylai hyn atal pobl rhag gwneud hyn
- Mae'n bosib y bydd swm o arian ychwanegol (adfachu arian) os bydd datblygwr yn ehangu'r safle a roddwyd iddo ac yn adeiladu mwy o eiddo gan wneud y tir yn fwy gwerthfawr yn dilyn hynny
- Ydy'r broses cyn ymgeisio'n yn addas at y diben? Gan ystyried cysylltedd a materion amgylcheddol eraill – efallai y bydd yn bosib gwella'r broses hon
- Mae'n rhaid cynnwys y bobl gywir yn gynnar yn y broses i sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys yn y broses yn gywir
- Gallai fod yn bosib ailfuddsoddi yn y tir sydd â gwerth (y tir a nodwyd i'w werthu) a chreu incwm tymor hir ohono
- Mae problemau adnoddau gyda phob tîm o ran rheoli problemau a chreu cyfleoedd
- Mae hyrwyddo a rheoli tir yn costio llawer o arian ac mae hyn yn berthnasol i ben arall nodau'r gwasanaeth – cynyddu incwm uniongyrchol

<u>Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol</u>

- Mae'r tîm yn cysylltu â Chadwraeth Natur lle bo angen
- Nid oes rheolwr adeilad/safle sy'n gallu mynd o'r tu arall i gyfreithiau a chysylltu ag ecolegwyr mewn perthynas ag ystlumod pan fydd angen
- Mae'r tîm yn awyddus i ailgylchu a chynnal yr amgylchedd naturiol
- Mae'r prentisiaid (yn benodol) yn achub y blaen wrth ailgylchu ac ailddefnyddio ac maent yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu'r buddion ar gyfer natur
- Hoffwn weld ymagwedd 'o'r pen i'r gwaelod' at fioamrywiaeth a sicrhau bod y neges yn rhaeadru drwy'r sefydliad yn yr un modd ag y mae negeseuon pwysig eraill wedi gwneud
- Hoffai'r gwasanaeth gynnal sgyrsiau â'r gweithlu ynghylch y materion a byddai'n croesawu hyfforddiant a gwybodaeth sy'n ei alluogi i gyfrannu at y mater
- Ymgymerir ag arolygon ecolegol ar sbardunau e.e. ni wneir gwaith ar y to'n flynyddol er enghraifft
- Hoffai pob rheolwr safle groesawu cyfleoedd i wella'r bywyd gwyllt ar eu safleoedd a gallai pob un dderbyn hyfforddiant/awgrymiadau da
- Nid oes diffyg awydd i gyfrannu at y mater pwysig hwn na sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Mae diffyg gorfodi ac atal unwaith eto'n fater mawr gan fod pobl yn gwybod nad oes effaith negyddol arnynt
- Byddai o fudd i ni be bai hwn yn amcan corfforaethol fel y gellir codi statws y mater a chryfhau'r neges drwy'r sefydliad

<u>Trafodaeth</u>

- Gall fod dryswch ynghylch pwy sy'n rheoli darnau o dir ar gyfer y cyhoedd ac yn fewnol
- Mae darn o waith yn cael ei lunio ar hyn o bryd i geisio gwneud hyn yn haws gan egluro cyfrifoldeb a rheolaeth y tir
- Nid oes diffyg ewyllys i barchu a chyfrannu at wella bioamrywiaeth
- Deillir llawer o'r cyfyngiadau o ddiffyg adnoddau
- Hefyd, mae enghreifftiau o lwyddiant a llawer o waith cadarnhaol

- Nid yw'r cyngor yn gallu rheoli'r holl safleoedd ac mae'n dibynnu ar aelodau wardiau a phreswylwyr i gysylltu â'r cyngor ynghylch unrhyw faterion maent wedi'u gweld
- Ystyried ychwanegu bioamrywiaeth fel amcan corfforaethol
- Mae angen ymgorffori materion bioamrywiaeth ac amgylcheddol ym mhob gwasanaeth a gweithiwr
- Gwneir hyn ar sail 'o'r pen i'r gwaelod' ac mae'n dechrau digwydd
- Mae'r mater yn derbyn cefnogaeth sylweddol gan y cyhoedd

Daeth y cyfarfod i ben am 3.40pm

**Cadeirydd**